Erthygl 3 Dinasyddion a'r Cyngor

3.01 Hawliau Dinasyddion

Mae gan ddinasyddion yr hawliau canlynol. Eglurir eu hawliau i gael gwybodaeth ac i gyfranogi yn fanylach yn y Rheolau Mynediad at Wybodaeth yn Rhan 4 o'r Cyfansoddiad hwn

(a) Pleidleisio a deisebau. Mae gan ddinasyddion ar gofrestr etholiadol yr ardal hawl i bleidleisio ac arwyddo deiseb i ofyn am refferendwm am ffurf o gyfansoddiad gyda maer etholedig.

(b) Gwybodaeth. Mae gan ddinasyddion hawl i:

(i) fynychu cyfarfodydd y Cyngor, y Bwrdd Gweithredol a'i bwyllgorau ac eithrio lle mae gwybodaeth gyfrinachol neu eithriedig yn debygol o gael ei datgelu, a bod y cyfarfod felly yn cael ei gynnal yn breifat;

(ii) darganfod o'r flaen-raglen waith pa benderfyniadau a gymerir gan y Bwrdd Gweithredol neu'r Cyngor a pha faterion y bydd y pwyllgorau craffu yn eu hystyried, a phryd y bydd y materion hyn yn cael eu trafod;

(iii) gweld adroddiadau a phapurau cefndir, ac unrhyw gofnodion o benderfyniadau a wnaed gan y Cyngor a'r Bwrdd Gweithredol; ac

(iv) archwilio cyfrifon y Cyngor a mynegi eu barn i'r archwilydd allanol.

(c) Cyfranogiad. Mae gan ddinasyddion yr hawl i gyfranogi yn sesiwn holi ac ateb y Cyngor, cyflwyno deisebau a chyfrannu yn y ffordd y mae'r Cyngor yn gweithio yn unol â'r rheolau yn Rhan 4 o'r Cyfansoddiad hwn

(d) Cwynion. Mae gan ddinasyddion yr hawl i gwyno:

(i) wrth y Cyngor ei hun o dan ei gynllun gwneud cwyn;

(ii) wrth yr Ombwdsmon am unrhyw anghyfiawnder y maent wedi ei ddioddef o ganlyniad i gamweinyddu, ond fe'u hanogir i ddefnyddio cynllun y Cyngor ei hun o wneud cwyn yn gyntaf;

(iii) wrth yr Ombwdsmon lle credant fod aelod neu aelod cyfetholedig o'r Cyngor wedi torri Côd Ymddygiad yr Aelodau.

3.02 Cyfrifoldebau dinasyddion

Rhaid i ddinasyddion beidio â bod yn dreisgar, na bod yn ddifrïol nac yn fygythiol tuag at gynghorwyr na swyddogion, a rhaid iddynt beidio â gwneud unrhyw ddifrod bwriadol i bethau sy'n eiddo i'r Cyngor, i gynghorwyr neu i swyddogion.